

CYLCH GORCHWYL Y GRŴP CYNGHORI ECONOMAIDD

1. Cyflwyniad

1.1. Mae gan y Grŵp Cyngori Economaidd (GCE) rôl hanfodol o ran cefnogi'r Fargen Twf a thwf economaidd ar draws rhanbarth canolbarth Cymru. Rôl y GCE yw rhoi cyngor i Fwrdd (Cyd-bwyllgor) y Fargen Twf ar Bortffolio'r Fargen Twf a'r Rhaglenni a Phrosiectau sy'n rhan ohono sy'n dod i'r amlwg wrth iddo ddatblygu. Ei rôl yw darparu cyngor strategol a mewnbwn ar sicrhau bod anghenion y sector preifat a photensial trosoledd buddsoddi yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllid. Rôl gynghori sydd gan y GCE ac mae'n rhan hanfodol o ddatblygu'r Fargen Twf ar gyfer y Canolbarth.

1.2. Prif amcanion y GCE fydd:

- Rhoi llais busnes ar y Fargen Twf i Fwrdd TCC.
- Hyrwyddo'r Fargen Twf ar lefel strategol sy'n adlewyrchu'r angen am fuddsoddiad yn economi'r Canolbarth.
- Darparu profiad ac arbenigedd busnes i gynorthwyo'r Bwrdd i wneud penderfyniadau ariannu am raglenni a phrosiectau sy'n dod i'r amlwg.
- Hyrwyddo'r Fargen Twf yn gadarnhaol yng Nghymuned Fusnes Canolbarth Cymru.

2. Cyfrifoldebau'r GCE

2.1. Rôl allweddol y GCE yw darparu barn y sector busnes ar y Fargen Twf ac yn enwedig y rhaglenni a'r prosiectau sy'n dod i'r amlwg yn ystod ei hoes.

2.2. Bydd y GCE yn defnyddio'r Achos Busnes Portffolio, sydd wedi'i ddatblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf, fel sail ar gyfer asesu anghenion buddsoddi'r rhaglenni a'r prosiectau hyn.

3. Aelodaeth y GCE

3.1. Bydd aelodau'r GCE yn dod o'r sector preifat, a byddant yn cynnwys cynrychiolwyr o ardaloedd Powys a Cheredigion.

3.2. Bydd Arweinwyr Powys a Cheredigion yn penodi aelodau'r GCE yn seiliedig ar feini prawf a fydd yn cynnwys profiad a gwybodaeth am anghenion y rhanbarth, rhinweddau arweinyddiaeth a phrofiad busnes.

3.3. Bydd gan Brif Swyddog Gweithredol pob Awdurdod neu ei gynrychiolydd enwebedig hawl i fynychu cyfarfodydd y GCE fel cynghorydd neu sylwedydd.

3.4. Bydd pob aelod o'r GCE fel arfer yn gwasanaethu am dymor o 2 flynedd ac yna'n dewis dod â'u tymor i ben neu geisio cael tymor arall drwy sefyll i gael eu hail-enwebu ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

3.5. Ni fydd y GCE yn cynnwys mwy na chwe aelod. Daw'r aelodau o blith arweinwyr busnes o fewn a thu allan i Ganolbarth Cymru. Fodd bynnag, bydd gan bob aelod wybodaeth a diddordeb yn nhwf economi Canolbarth Cymru.

4. Arweinyddiaeth y GCE

4.1. Gan y bydd gan aelodau'r GCE gryn dipyn o brofiad a gwybodaeth am arweinyddiaeth ar y cyd, ni fydd angen Cadeirydd nac Is-gadeirydd ar y panel.

4.2. Ni fydd y GCE yn cynnwys mwy na 6 aelod a bydd yn adrodd yn rheolaidd yn uniongyrchol i Arweinwyr a/neu Uwch Swyddogion Cyfrifol/Prif Weithredwyr yr awdurdodau lleol sy'n cynrychioli'r rhanbarth.

4.3. Gwahoddir cynrychiolydd o'r GCE i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd ar sail cylchdro yn amodol ar argaeledd aelodau'r GCE.

5. Cyfarfodydd y GCE

5.1. Bydd y GCE yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn neu'n amlach yn ddibynnol ar ddatblygiad rhaglenni a phrosiectau'r Fargen Twf. Gellir hwyluso cyfarfodydd o bryd i'w gilydd i gynorthwyo gyda rhannu gwybodaeth, cynnal trafodaethau a dod i gasgliadau ar y cyd gyda'r hwyluso'n cael ei ddarparu gan dîm TCC.

5.2. Disgwylir y bydd y GCE yn rhoi barn gyfunol ar y wybodaeth a gyflwynir iddynt roi sylwadau arnynt ond os oes gwahaniaeth barn mae'n bwysig bod hyn yn cael ei gyfleu yn yr adborth a roddir i'r Bwrdd.

5.3. Os bydd unrhyw aelod o'r GCE yn datblygu buddiant personol, busnes neu ariannol yn unrhyw un o'r rhaglenni a/neu brosiectau sy'n rhan o'r Fargen Twf, bydd yn camu i lawr ar unwaith fel cynrychiolydd y GCE ac ni fyddant yn cymryd unrhyw ran bellach yn rôl y GCE. Cyfrifoldeb Aelodau'r GCE fydd datgan unrhyw fuddiant cyn gynted â phosibl.

5.4. Bydd disgwyl i aelodau'r GCE ymddwyn yn unol â 'saith egwyddor bywyd cyhoeddus' (a elwir yn Egwyddorion Nolan). Nodir yr egwyddorion hyn ar ddiwedd y Cylch Gorchwyl hwn.

5.5. Gellir defnyddio is-grwpiau i ystyried materion yn fanwl neu ddarnau penodol o waith. Gall yr is-grwpiau hyn gynnwys aelodau o'r GCE a grwpiau eraill.

5.6. Bydd cofnodion yn cael eu dosbarthu drwy e-bost cyn gynted ag y bo modd ar ôl y cyfarfod i dderbyn sylwadau a byddant yn cynnwys cofnod o benderfyniadau, camau gweithredu a thrafodaethau.

5.7. Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn cael ei darparu gan Gyngor Sir Powys. Bydd gan y Gymraeg a'r Saesneg statws cyfartal, a bydd y GCE yn gweithio i safonau'r laith Gymraeg a nodir yn y Cytundeb Rhwng Awdurdodau hwn.

- 5.8. Ar gyfer cyfarfodydd y GCE, bydd presenoldeb pedwar aelod mewn cyfarfod yn cwrdd â'r canllawiau a ddarperir ar gyfer y cyfarfod. Bydd aelodau'n ffurfio cworwm yn ystod busnes y GSE.
- 5.9. Telir treuliau teithio/cynhaliaeth ar gyfradd yr awdurdod lleol ar gyfer mynychu cyfarfodydd y GCE ond ni wneir unrhyw daliad neu ad-daliad arall.

6. Cyfathrebu

- 6.1. Caiff barn y GCE ei rhannu ag eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a bydd hefyd yn cael ei chynnwys mewn adroddiadau i'r Bwrdd a chaiff ei chyhoeddi wedyn. Ni phriodolir barn i unrhyw aelod penodol o'r GCE.
- 6.2. Gall y Bwrdd, o bryd i'w gilydd, gyfathrebu â busnesau yn y rhanbarth ar ddatblygiad y Fargen Twf a allai gynnwys y safbwyntiau a fynegwyd gan y GCE. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd datganiad drafft i'r wasg yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r GCE i sicrhau bod unrhyw gyfeiriad a wneir at sylwadau'r GCE yn gywir cyn cael ei ryddhau.

Cod Ymddygiad y GCE

Mae'n ofynnol i aelodau'r GCE ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu ariannol yn unrhyw ran o fusnes cyfarfod y GCE ar ddechrau'r cyfarfodydd.

Bydd disgwyl i aelodau'r GCE ymddwyn yn unol â "saith egwyddor bywyd cyhoeddus" a nodir gan y Pwyllgor Safonau Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan) sef:

Anhunanoldeb

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud penderfyniadau er budd y cyhoedd yn unig. Ni ddylent wneud hynny er mwyn cael budd ariannol neu fudd materol arall iddynt hwy eu hunain, eu teuluoedd na'u ffrindiau.

Uniondeb

Ni ddylai deiliaid swyddi cyhoeddus osod eu hunain o dan unrhyw rwymedigaeth ariannol neu rwymedigaeth arall i unigolion neu sefydliadau allanol a allai ddylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau swyddogol.

Gwrthrychedd

Wrth gynnal busnes cyhoeddus, gan gynnwys gwneud penodiadau cyhoeddus, dyfarnu contractau neu argymell unigolion ar gyfer dyfarniadau a buddion, dylai deiliaid swyddi cyhoeddus wneud dewisiadau ar sail teilyngdod.

Atebolrwydd

Mae deiliaid swyddi cyhoeddus yn atebol i'r cyhoedd am eu penderfyniadau a'u gweithredoedd a rhaid iddynt ildio i ba bynnag graffu sy'n briodol i'w swydd.

Bod yn agored

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus fod mor agored â phosibl am yr holl benderfyniadau a champau gweithredu a wnânt. Dylent roi rhesymau dros eu penderfyniadau a chyfyngu ar wybodaeth dim ond pan fydd budd ehangach y cyhoedd yn mynnu

hynny.

Gonestrwydd

Mae gan ddeiliaid swyddi cyhoeddus ddyletswydd i ddatgan unrhyw fuddiannau preifat sy'n ymwneud â'u dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro sy'n codi mewn ffordd sy'n diogelu budd y cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Dylai deiliaid swyddi cyhoeddus hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiempl.